Rebecca Evans AC/AM

**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/0517/19

Elin Jones AC

25 Mehefin 2019

Annwyl Llywydd,

**Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd Adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri yn achos cyflwyno Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol er gwybodaeth ichi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay

Caerdydd • Cardiff

CF99 1NA

0300 0604400

Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019 (‘y Gorchymyn’) yn cynyddu maint lleiaf y Cregyn Moch (math o falwen fôr) y caniateir i gychod o'r DU eu pysgota neu eu cludo yn nyfroedd Cymru neu y caniateir i gychod o'r DU eu glanio yng Nghymru (yr enw a roddir ar faint lleiaf o'r fath yw “Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf” neu MCCLl).

Ar hyn o bryd, mae Rheoliad y Cyngor 850/1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd drwy fesurau technegol er mwyn diogelu pysgod ifanc organebau môr (“Rheoliad 850/1998”) yn gosod MCCLl o 45mm ac nid oes unrhyw fesurau gwarchod a rheoli effeithiol eraill yn eu lle i ddiogelu'r bysgodfa. Mae ymchwil wyddonol wedi dangos bod y bysgodfa o dan bwysau difrifol a'i bod mewn perygl o fethu. Felly, nid yw'r MCCLl presennol yn ddigon i ddiogelu'r bysgodfa. Pe bai pysgodfa Cregyn Moch Cymru yn methu, gallai hynny arwain at ganlyniadau difrifol i bysgotwyr sy'n dibynnu ar yr adnodd penodol hwn ac i'r diwydiant sy'n prosesu cregyn moch.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd pecyn o fesurau i gefnogi pysgodfa Cregyn Moch Cymru ac i'w gwneud yn fwy cynaliadwy (gweler: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-offeryn-statudol-pysgodfeydd-cregyn-moch?_ga). Roedd cynyddu'r MCCLl fesul cam yn rhan allweddol o'r pecyn hwnnw.

Mae'n rhaid i unrhyw gynnydd yn y MCCLl gyd-fynd â chyfraith yr UE. Ar hyn o bryd, mae Erthygl 46 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/1998 yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau gyflwyno mesurau cadwraeth (gan gynnwys MCCLl uwch) a fydd yn gymwys i'w cychod pysgota eu hunain. Fodd bynnag, bydd Rheoliad 850/1998 yn cael ei ddiddymu ganol mis Gorffennaf 2019, gan olygu y bydd yn amhosibl i'r DU (neu i Weinidogion Cymru) gynyddu'r MCCLl wedi hynny. Er hynny, deallwn y bydd unrhyw Orchymyn a wneir cyn i Erthygl 46 gael ei diddymu yn parhau'n gymwys ar ôl hynny.

Yn lle caniatáu i Aelod-wladwriaethau deddfu'n unigol, bydd y Rheoliad newydd yn cynnwys dull o weithredu ar sail rhanbarthau lle y bydd grŵp o Aelod-wladwriaethau'n gallu gofyn i'r Comisiwn roi mesur cadwraeth ar waith. Fodd bynnag, mae proses o'r fath yn debygol o fod yn un hirfaith ac yn un y bydd angen cydweithrediad Aelod-wladwriaethau eraill ar ei chyfer, ac mae'n bosibl na fydd y Comisiwn yn barod i gyflwyno mesurau o’r fath. Yn ogystal, mae'r pwysau sydd ar y Bysgodfa yn golygu y dylid cyflwyno MCCLl newydd cyn gynted ag y bo modd.

Er bod Llywodraeth y DU wedi bod yn rhan o drafodaethau am reoliad i ddisodli Rheoliad 850/1998 ers cryn amser, nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan uniongyrchol yn y trafodaethau hynny ac roeddent o dan yr argraff y byddai'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 46 yn cael eu hatgynhyrchu yn y Rheoliad a fyddai'n disodli Rheoliad 850/1998. Dim ond yn ddiweddar y cafwyd cadarnhad oddi wrth DEFRA na fyddai hynny'n digwydd. Mae'r pwysau a'r llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â Brexit wedi arwain at ragor o oedi cyn ystyried y Gorchymyn.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod unrhyw ran arall o'r DU yn bwriadu deddfu yn y maes hwn.

Mae angen torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau bod y Gorchymyn yn gallu dod i rym cyn i Reoliad 850/1998 gael ei ddiddymu. Cafodd y Rheoliad a fydd yn disodli Rheoliad 850/1998 ei gymeradwyo gan y Cyngor Cyflogaeth, Polisi Cymdeithasol a Materion Defnyddwyr ar 13 Mehefin 2019, a disgwylir i'r offeryn hwnnw ddod i rym ddiwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf. Nid oes modd dweud ar hyn o bryd pryd yn union y

bydd y Rheoliad newydd yn cael ei gyhoeddi ac felly dyna pam y mae angen dod â'r Gorchymyn i rym ar 4 Gorffennaf 2019.

Oherwydd bod hwn yn fater brys, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal ymgynghoriad am y Gorchymyn. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2017 ar gynyddu'r MCCLl. Nid yw'r Gorchymyn yn wahanol mewn unrhyw ffordd arwyddocaol i'r cynigion yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2017.

Mae Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u paratoi ac maen nhw, ynghyd â'r Rheoliadau, wedi'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre: 0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.